**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-17-01(p6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 5ed Rhagfyr 2001** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3** |
| **Teitl:** | **Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg – Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg** |

**Pwrpas**

1. Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi:

- Y sefyllfa bresennol o ran Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r Iaith Gymraeg – Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg. (Papur y Pwyllgor Diwylliant CC-13-01(p2))
- Y sefyllfa bresennol o ran yr iaith Gymraeg yn yr NHS yng Nghymru.

**Cefndir**

**Y Sefyllfa o ran yr NHS yng Nghymru.**

2. Mae *Rhoi Cleifion yn Gyntaf* yn rhagweld NHS yng Nghymru lle y caiff anghenion a dymuniadau personol cleifion unigol eu rhoi yn fwyfwy ar ben unrhyw restr flaenoriaethau wrth gynllunio a darparu gofal iechyd. Mae’n datgan y "dylid cynllunio gwasanaethau o amgylch y claf fel bod yr NHS yn cyflwyno'r ansawdd o driniaeth a gofal y mae ar y cleifion a'r gofalwyr eu hangen, yn y ffordd y maent yn ei dymuno, ac yn gwneud hynny'n gyson â'r gwerthoedd eraill". Mae’n datgan hefyd fod "cleifion eisiau cael eu gweld yn gyflym mewn sefyllfaoedd sy’n parchu eu preifatrwydd a’u hurddas, ac i gael eu gofalu gan staff sydd yn deall eu hanghenion a’u pryderon fel unigolion." Rhaid i hyn gynnwys ymrwymiad i ehangu diffiniadau ansawdd i gynnwys dewis iaith . Amlygir hyn yng Nghynllun yr NHS ar gyfer Cymru, ‘Gwella Iechyd yng Nghymru.’

3. Cynhaliwyd arolwg gan Gyngor Defnyddwyr Cymru i’r ddarpariaeth ar gyfer cleifion sy’n siarad Cymraeg a’u teuluoedd yng Nghymru. O ganlyniad, cyhoeddwyd adroddiad o dan y teitl ‘*Welsh in the Health Service – The scope, nature and adequacy of Welsh Language Service provision in the National Health Service in Wales*’. Mae’r adroddiad yn amlygu’r diffyg o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a diffyg sensitifrwydd i anghenion gofal cleifion sy’n siarad Cymraeg. Rhagwelir y bydd argymhellion yn yr adroddiad yn codi ymwybyddiaeth yn yr NHS yng Nghymru o’r iaith Gymraeg fel mater o bwys, ac felly yn darparu ffordd ymlaen.

4. Mae’r adroddiad wedi’i hymchwilio’n fanwl, ac mae’n amlygu’r pwyntiau allweddol y bydd angen rhoi sylw iddynt. Gelwir am newid ymagwedd sylfaenol ar ran yr NHS yng Nghymru, gan ddadlau y dylai’r diffiniad o ansawdd gofal yn y Gwasanaeth Iechyd gynnwys dewis iaith, fel y gwneir eisoes gyda gofynion pwysig anghlinigol eraill, er enghraifft anghenion deietegol a daliadau crefyddol.

5. Er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd, mae’r adroddiad yn cydnabod y dylid yn y tymor hir anelu at symud y cyfrifoldeb oddi ar ysgwyddau’r cleifion a’i roi ar sefydliadau sy’n darparu gofal iechyd. Cydnabyddir bod angen mwy o arweiniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth fynd i’r afael â’r materion hyn.

**Sefydlu Tasglu Cymru Gyfan – Gwasanaethau’r Iaith Gymraeg.**

6.Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru newydd sefydlu Tasglu Cymru Gyfan – Gwasanaethau’r Iaith Gymraeg i ddatblygu’r argymhellion yn adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru ymhellach, a llunio polisi ar gyfer yr NHS yng Nghymru ynglyn

â’r iaith Gymraeg. Mae Ann Lloyd, Cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru, yn cadeirio’r tasglu.

7. Mae Tasglu Cymru Gyfan yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Cynulliad Cenedlaethol, defnyddwyr, darparwyr yr NHS yng Nghymru a hefyd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy’n ymroddedig i weithio mewn partneriaeth, a byddant yn edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yr NHS yng Nghymru, gyda’r nod o ddatblygu dulliau strategol o godi ymwybyddiaeth materion diwylliant a iaith i holl staff y rheng flaen.

**Cynllunio’r Gweithlu**

8. Roedd y broses o gynllunio’r Gweithlu yn yr NHS yng Nghymru eleni yn cynnwys casglu data ar nifer y staff yn yr NHS yng Nghymru sy’n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd wedi casglu data ar anghenion y gweithlu sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Bydd y data yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth am y broses gomisiynu addysg, er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr, yn ôl yr angen, gymryd o leiaf rhan o’u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd y ffigurau a gasglwyd eleni yn uchel, ac mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach yn rhoi cyngor ynghylch y cwestiynau a ofynnwyd, er mwyn gwneud yn sicr y bydd y ffigurau am y flwyddyn nesaf yn fwy ystyrlon.

**Y Sefyllfa o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru**

9. O ganlyniad i anawsterau gyda recriwtio a cadw staff yn y gwasanaethau cymdeithasol, sefydlodd y Gweinidog grwp gorffen a gorchwyl ar y gweithlu ym mis Ionawr 2001. Y Prif Arolygwr oedd yn cadeirio’r grwp a chyflwynwyd adroddiad ym mis Medi 2001. Ar sail y data a gasglwyd yn gyson, mae’r adroddiad yn nodi bod 16% o’r gweithlu statudol yn siarad Cymraeg (yn amrywio o 86% yng Ngwynedd i 1% yn Rhondda Cynon Taf). Un o’r prif argymhellion oedd datblygu strategaeth i gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu, a byddai angen i’r cynllun hwn gynnwys priodoldeb diwylliannol. Roedd hefyd yn argymell y dylid cael consortia rhanbarthol i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â’r gweithlu, recriwtio a chadw staff. Dylai’r rhain fod yn sensitif i’r iaith a diwylliant ar lefel leol.

**Cydymffurfio**

10. O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae’n ofynnol yn statudol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae swyddogaethau’r Cynulliad ynglyn â’r Ddeddf hon wedi’u dirprwyo i’r Gweinidog dros Ddiwylliant. Nid oes unrhyw faterion rheoleiddio ac eiddo. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac maent yn hapus.

**Themâu Traws-bynciol**

11. Mae yna nifer o themâu traws-bynciol, gan gynnwys Sefydliadau sy’n ymwneud â Datblygu Economaidd, mynd i’r afael â chynhwysiant cymdeithasol, gwella dysgu a’r NHS yng Nghymru gyda’r nod traws-bynciol cyffredinol o geisio gwella materion sy’n ymwneud â diwylliant a’r iaith.

**Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc.**

12. Gofynnir i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi’r papur (CC-13-01) a’r cynnydd o ran yr iaith Gymraeg o fewn yr NHS yng Nghymru.

13. Gofynnir hefyd i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi y cyflwynir papur mwy manwl ar y cynnydd yn y dyfodol.

**JANE HUTT**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Y Pwynt Cyswllt** ar gyfer ymholiadau’n ymwneud â’r NHS yw Alan Hanna, Cangen Addysg, Hyfforddiant a Datblygu’r NHS, Yr Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth yr NHS.

Rhif ffôn: (029) 20823448.

E-bost: Alan.Hanna@wales.gsi.gov.uk

**Y Pwynt Cyswllt** ar gyfer ymholiadau’n ymwneud â’r Gwasanaethau Cymdeithasol yw Margaret Provis, yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhif ffôn: (029) 20826692

E – bost: Margaret.Provis@wales.gsi.gov.uk